Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Datganiad Polisi ar Dderbyn Myfyrwyr Anabl

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

## CYNNWYS

Diffiniadau ........ 2
1. Cyflwyniad ........ 2
2. Egwyddorion Derbyn ........ 3
3. Darparu Addasiadau Rhesymol ........ 3
4. Rôl Derbyniadau ........ 4
5. Datgelu Gwybodaeth ........ 4
6. Cyfleoedd i Ddatgelu ........ 5
7. Lle na ellir diwallu anghenion ........ 5

**Diffiniadau**

Bydd y diffiniadau canlynol yn berthnasol mewn perthynas â'r Datganiad Polisi hwn:

**Myfyrwyr Anabl:** mae'n cynnwys y rhai sydd â nam corfforol a synhwyraidd; anawsterau dysgu penodol; cyflyrau iechyd hirdymor a pharhaus; anawsterau iechyd meddwl a'r rhai sydd ar y sbectrwm awtistiaeth.

**Myfyrwyr sydd ag anafiadau / afiechydon dros dro:** mae'n cynnwys y rhai sydd ag anaf neu afiechyd byrdymor sy'n debygol o bara 12 mis fan bellaf. Er bod y myfyrwyr hyn yn gymwys i gael cymorth gan y sefydliad, nid ydynt yn warchodedig o dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010.

**Addasiad rhesymol:** unrhyw gam y gall y Brifysgol yn rhesymol ei gymryd i atal unrhyw ddarpariaeth, maen prawf neu arfer, neu unrhyw nodwedd ffisegol o'i safleoedd, rhag rhoi myfyriwr anabl dan anfantais o'i gymharu â myfyriwr nad yw'n anabl.

**Corff Cyfrifol:** yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, y Corff Llywodraethu yw'r 'corff cyfrifol'. Mae'r Corff Cyfrifol, h.y. y Brifysgol, yn atebol o dan y gyfraith am weithgarwch y sefydliad yn gyffredinol, a hefyd am weithredoedd gweithwyr unigol yn ystod eu cyflogaeth, boed y gweithwyr hynny'n rhai llawn amser, rhan-amser neu dros dro. Mae'r Corff Cyfrifol hefyd yn gyfrifol am weithredoedd asiantau, gan gynnwys contractwyr a siaradwyr gwadd.
Gellir hefyd ddal unigolion yn gyfrifol am helpu gweithred anghyfreithlon os byddant yn gwahaniaethu'n **fwriadol** yn erbyn myfyriwr neu ymgeisydd anabl.

**Y Datganiad Polisi:** y darpariaethau a nodir yn y Datganiad Polisi hwn fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Datganiad Polisi hwn i'w ddarllen ar y cyd â Chytundeb Myfyrwyr y Brifysgol a Pholisi Derbyn y Brifysgol sydd ar gael yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/cais/y-polisi-derbyn-thelerau-ac-amodau-i-ymgeiswyr.

1.2 Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, sef y Corff Cyfrifol o dan ddeddfwriaeth Gydraddoldeb, wedi ymrwymo i ehangu'r cyfleoedd ar gyfer mynd i mewn i addysg uwch ac mae'n croesawu ac yn derbyn myfyrwyr sydd ag ystod eang ac amrywiol o gymwysterau a chefndiroedd.

1.3 Er yr arweinir yr egwyddorion yn y Datganiad Polisi gan degwch ar y sail bod rhaid cynnwys **pob** myfyriwr, mae angen i'r holl staff fod yn ymwybodol o'r fframwaith deddfwriaethol y maent yn gweithio ynddo, gan gynnwys darpariaethau yn y Ddeddf Cydraddoldeb sy'n amddiffyn myfyrwyr anabl rhag gwahaniaethu.

1.4 Disodlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 yr holl ddeddfau blaenorol yn erbyn gwahaniaethu gan eu cydgrynhoi'n un Ddeddf, ac mae'n cynnig amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar sail anabledd.

1.5 Gall gwahaniaethu fod ar ddwy ffurf:

(a) Gwahaniaethu Uniongyrchol
Mae hyn yn digwydd pan gaiff myfyriwr anabl ei drin yn llai ffafriol na myfyriwr arall mewn sefyllfa debyg. Mae hyn yn cwmpasu sefyllfaoedd lle caiff person anabl ei drin yn wahanol oherwydd rhagdybiaethau ystrydebol neu ragfarn am ei gyflwr neu ei

alluoedd. Nid yw'n bosibl cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol mewn perthynas ag anabledd, felly mae bob amser yn anghyfreithlon.

(b) Gwahaniaethu Anuniongyrchol
Dyma lle bydd myfyrwyr anabl o dan anfantais oherwydd 'darpariaeth, maen prawf neu arfer' a ddefnyddir yn yr un modd i bob myfyriwr, neu grŵp penodol o fyfyrwyr. Dim ond os bydd y ddarpariaeth, y maen prawf neu'r arfer yn 'ddull cymesur o gyflawni nod dilys' y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol.

Gallai nodau dilys gynnwys cynnal safonau academaidd neu sicrhau iechyd a diogelwch a lles myfyrwyr. Rhaid i'r dull o gyflawni'r nod fod yn gymesur (yn briodol ac yn angenrheidiol).

1.6 **Y Gymraeg**

Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'r Datganiad Polisi hwn yn cydymffurfio â'r egwyddorion a nodir yn Safonau'r Gymraeg y Brifysgol a fydd yn rhoi syniad clir i'n myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o'r gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl gennym. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/llywodraethu-rheolaeth/safonaur-iaith-gymraeg.

## 2. Egwyddorion Derbyn

2.1 Caiff pob cais am le ar gwrs yn y Drindod Dewi Sant ei ystyried yn ôl ei deilyngdod fesul achos. Bydd y Brifysgol yn asesu ceisiadau gan fyfyrwyr anabl gan ddefnyddio'r un meini prawf derbyn ag sy'n berthnasol i bob ymgeisydd. Proses yw'r asesiad hwn lle caiff addasrwydd academaidd, fel arfer, ei ystyried ar wahân i drafodaeth sy'n canolbwyntio ar anghenion eraill yr ymgeisydd, a fydd yn weithgarwch ar wahân ond cyfochrog.

2.1.1 Yr unig eithriad i 2.1 uchod yw lle caiff ymgeisydd wahoddiad i asesiad yn rhan o'r broses dderbyn (e.e. ar gyfer cyrsiau yn y Gwyddorau Gofal Iechyd neu Addysg) a gall fod angen trafodaeth am addasiadau rhesymol bryd hynny.

2.2 Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i bob dull astudio ac i bob myfyriwr beth bynnag yw ei gefndir.

2.3 Ni ddylid tybio bod y cymorth sydd ar gael ar gyfer un cwrs yn briodol ar gyfer un arall. Pan fydd unigolyn yn dymuno trosglwyddo i gwrs arall yn y Brifysgol neu symud ymlaen i lefel uwch, efallai y bydd angen cynnal asesiad newydd, yng nghyd-destun cais newydd.

## 3. Darparu Addasiadau Rhesymol

3.1 Rhaid i'r Drindod Dewi Sant gymryd camau rhesymol i addasu arferion, meini prawf neu ddarpariaethau presennol lle gallai myfyrwyr anabl fod o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'r rhai nad ydynt yn anabl. Gallai darparu cynorthwyon neu wasanaethau ategol (er enghraifft, gosod dolenni sain i fyfyrwyr byddar) hefyd fod yn addasiad rhesymol yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

3.2 Wrth asesu rhesymoldeb, gallai nifer o ystyriaethau fod yn berthnasol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

Effeithiolrwydd y cam i atal yr anfantais:

Y math o addysg neu fudd, cyfleuster neu wasanaeth arall a ddarperir;

Adnoddau'r Brifysgol;

Effaith yr anabledd neu'r gwahaniaeth dysgu penodol ar yr unigolyn;

Ymarferoldeb y camau;

Costau ariannol a chostau eraill gwneud yr addasiad;

Y grantiau neu'r benthyciadau sydd ar gael e.e. Lwfansau Myfyrwyr Anabl;

Iechyd a Diogelwch;

Buddiannau perthnasol pobl eraill, gan gynnwys myfyrwyr eraill, lle byddai'r addasiad yn arwain at anfantais sylweddol i'r rhai eraill hynny;

I ba raddau y darperir cynorthwyon a gwasanaethau fel arall i bobl sydd ag anabledd.

3.3 Bydd unrhyw gymorth a ddarperir gan y Drindod Dewi Sant yn ymwneud â'i swyddogaeth yn ddarparwr addysg. Ni fydd y Drindod Dewi Sant yn darparu cymorth y byddai sefydliadau statudol eraill, megis Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Awdurdod Iechyd, fel arfer yn eu darparu. Felly mae'n bwysig fod y gofynion yn cael eu trafod â Gwasanaethau Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant cyn gynted ag y bo modd yn y broses dderbyn.

3.4 Caiff y Drindod Dewi Sant ofyn yn rhesymol am ragor o wybodaeth i asesu pa addasiadau rhesymol, os o gwbl, y gall eu gwneud.

## 4. Rôl Derbyniadau

Mae Derbyniadau'n gyfrifol am drosglwyddo'r penderfyniad derbyn i'r ymgeisydd ac am roi gwybod i'r ymgeisydd am unrhyw amodau derbyn y gallai fod angen eu bodloni. Mae Derbyniadau'n sicrhau y gwneir pob penderfyniad mewn modd amserol ac wrth fynd ymlaen wrth i'r ceisiadau ddod i law a chael eu hystyried ar gyfer derbyn.

## 5. Datgelu Gwybodaeth

5.1 Caiff yr holl ymgeiswyr i'r Drindod Dewi Sant eu hannog i ddatgelu gwahaniaeth dysgu penodol, anabledd neu gyflwr meddygol yn gynnar i alluogi'r Brifysgol i ystyried, ymlaen llaw, y trefniadau mynediad cyffredinol, addasiadau penodol unigol ac unrhyw gymorth ychwanegol neu drefniadau penodol y gallai fod angen eu gwneud.

5.2 Ni ddefnyddir y wybodaeth a ddarperir i wrthod lle ar y cwrs perthnasol mewn modd anghyfreithlon a chaiff ei drin yn ddata personol, sensitif ("data categori arbennig") yn ôl diffiniad deddfwriaeth Diogelu Data.

5.3 Gwerthfawroga'r Drindod Dewi Sant mai'r ymgeisydd sydd i benderfynu a dewis maint y datgeliad, a'r angen am gyfrinachedd, a gofynnir am ganiatâd yr ymgeiswyr ynghylch maint y datgeliad oddi mewn i'r Brifysgol. Er gwaethaf ei dyletswydd ragweledol, gall gallu'r Brifysgol i ddarparu addasiadau rhesymol fod yn gyfyngedig pan fydd myfyrwyr yn dewis peidio â datgelu neu'n dewis datgelu i raddau.

## 6. Cyfleoedd i Ddatgelu

6.1 Ceir nifer o gyfleoedd i ddatgelu (yn unol ag adran 5 uchod) a thrafod trefniadau cymorth priodol yn gynnar yn y broses ymgeisio.

**Cyn gwneud cais:** Cynhalia'r Brifysgol nifer o Ddiwrnodau Agored i ddarpar ymgeiswyr, eu rhieni a'u ffrindiau. Mae staff y Gwasanaethau Myfyrwyr ar gael i roi cyngor cyffredinol ac i ymgynghori'n unigol ar Ddiwrnodau Agored.

**Gwneud cais:** Nodir ymgeiswyr anabl a'r rhai sydd â gwahaniaethau dysgu penodol ar y ffurflen gais israddedig trwy'r canlynol:

Cod anabledd

Datganiad personol

Gwybodaeth a roddir gan ganolwr

Yr adran briodol ar y ffurflen gais

**Ar ôl cynnig:** Cysyllta ymgynghorwyr y Drindod Dewi Sant â'r ymgeiswyr drwy e-bost i'w gwahodd i ddatgelu ymhellach a thrafod unrhyw ofynion a allai fod gan yr ymgeiswyr. Gwneir hyn trwy Ffurflen Ymholiad Anghenion Cymorth (SNEF). Anogir ymgeiswyr sydd ag anghenion cymorth ychwanegol i lenwi'r ffurflen hon cyn gynted ag y bo modd er mwyn gallu pennu addasiadau rhesymol a mesurau cydadferol a rhoi trefniadau cymorth priodol ar waith mewn pryd ar gyfer dechrau eu hastudiaethau. Anogir ymgeiswyr llwyddiannus i ymweld â'r Brifysgol. Anogir ymgeiswyr anabl i ddefnyddio'r cyfle hwn i gwrdd â'r ymgynghorwyr yn y Gwasanaethau Myfyrwyr trwy apwyntiad i drafod unrhyw ofynion unigol.

6.2 Yn ogystal, mae ymgynghorwyr y Gwasanaethau Myfyrwyr ar gael gydol y broses ymgeisio i drafod anghenion unigol. Gall hyn fod yn y cnawd trwy drefniad, neu dros y ffôn neu e-bost.

## 7. Lle na ellir diwallu anghenion

7.1 Os bydd gofynion cymorth cymhleth yn cael eu nodi, gellir cyfeirio achos yr ymgeisydd i 'Banel Adolygu Addasiadau Rhesymol' y Brifysgol i'w hystyried ymhellach. Bydd y Panel yn asesu p'un a all y Brifysgol yn rhesymol wneud addasiadau i alluogi'r ymgeisydd i gymryd rhan lawn yn ei ddewis raglen a chyrraedd ei botensial llawn. Er bod y Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i dderbyn myfyrwyr anabl neu'r rhai sydd â gwahaniaethau dysgu penodol, gall fod achosion unigol lle mae anghenion penodol ymgeiswyr yn golygu nad oes unrhyw addasiadau rhesymol y gallai'r Brifysgol yn rhesymol eu gwneud a fyddai'n atal yr ymgeisydd dan sylw rhag dioddef anfantais sylweddol mewn perthynas â'r cwrs a/neu fynediad i fuddion, cyfleusterau neu wasanaethau.

7.2 Lle na ellir diwallu anghenion ac ar ôl archwilio pob dewis arall posibl, efallai mai'r unig ddewis rhesymol fydd i'r Brifysgol dynnu'r cynnig lle yn ôl. O dan yr amgylchiadau hyn, gwneir argymhelliad i'r Uwch Reolwr dynodedig gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr, ar ran y Panel Adolygu Addasiadau Rhesymol. Bydd yr Uwch Reolwr dynodedig yn ystyried yr argymhelliad ac os yw'n cytuno, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad i dynnu'r cynnig yn ôl.

## Rheoli fersiynau dogfennau

| Rhif y fersiwn: | Rheswm dros y newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 0.1 | Adolygiad blynyddol – drafft cychwynnol i'w ystyried gan y PPM. | Rhys Dart, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr/ Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn/ Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa | 14/06/24 |
| 1.0 | Fersiwn derfynol wedi'i chymeradwyo gan y PPM. | Rhys Dart, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr/ Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn/ Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa | 15/10/24 |

Statws presennol y Polisi: Wedi'i gymeradwyo

Mae'r polisi'n berthnasol i: AU

Dyddiad ei gymeradwyo: 15/10/24

Dyddiad y daw i rym: 15/10/24

I'w gyhoeddi: ar wefan y Drindod Dewi Sant.

---

***Cymeradwyo***

*Caiff y polisi ei ystyried yn ffurfiol a'i gymeradwyo'n unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.*

*Os bydd y polisi'n effeithio ar staff, dylid ceisio cyngor gan AD o'r dechrau i ganfod a oes angen ymgynghori â'r JCC. Bydd AD hefyd yn rhoi cyngor ar y cyfnod mwyaf addas i ymgynghori â'r JCC ac ynghylch p'un a oes angen cymeradwyaeth y Cyngor*

*Rhaid cynnwys y canlynol gyda PHOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo:*

- *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*
- *Asesiad o'r Effaith Sefydliadol*
- *Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data*

*Cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio'n cwblhau'r adran isod:*

---

***I'w gwblhau gan ysgrifennydd y pwyllgor***

*Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:*

*Mae Asesiad o'r Effaith Sefydliadol wedi'i gwblhau ☒*

*Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau ☒*

*Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'i gwblhau ☒*

*Materion y mae angen i'r pwyllgor cymeradwyo eu hystyried: Dim wedi'u nodi.*

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David